

Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
ddydd Iau 7 Medi 2017
yng Nghanolfan Ymwelwyr y Gogarath, Llandudno
am 2:30pm

Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire (Cadeirydd)
Gwen Butler (Is-gadeirydd)
Heather Fitzgerald
Jo Hughes
Kevin Slattery
Max Grant
Kay Culhane
Tom Woodall
Jim Gaffney
Paul Frost
Duncan Barratt
Iona Pierce
Hilary Davies
Chris Marshall

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol)
Howard Sutcliffe (Swyddog Cefn Gwlad)
Helen Mrowiec (Uwch-swyddog Hamdden)
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)
Victoria Currie (Cydllynydd Ardal)
Caroline Turner (Swyddog Mapiau Swyddogol)

Arsylwyr

Tom Culhane
Catrin Gilkes (Cyfieithydd)
Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Peter Rutherford (Parc Cenedlaethol Eryri)
Rosie Frankland (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

John Buckley, y Cyng. Martyn Holland, y Cyng. Donald Milne, Dan Hurst, Nick Lloyd, Toni Proffitt.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiodd Paul Frost eu bod yn gywir ac fe eiliodd Gwen Butler. Wrth fynd drwy'r nodiadau, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

Pwynt gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Y sefyllfa bresennol
PG 4.1	AW i gysylltu â Chyngor Cymuned Llandyrnog ynglŷn â map swyddogol o'r plwyf	AW yn mynd i gyfarfod y Cyngor Cymuned ar 19/09/2017
PG 4.2	Tim Faire i wirio gyda chlerc Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd a oes arnynt angen map swyddogol	TF i wirio a chysylltu ag AW
PG 4.3	HA a SW i siarad â swyddogion Hawliau Tramwy, dod o hyd i gryno-ddisgiau â'r llwybrau Glastir diwethaf. Darparu manylion llwybrau pengoll hefyd, fel man cychwyn	Mae gan CSDd hen ffiniau Glastir ond nid y llwybrau, ni allai CBSC ddod o hyd i ddim. HA i gysylltu â Jane Tibbott
PG 4.4	SW i wirio bod llythyr adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i anfon at ymgynghoreion statudol	Roedd llythyr wedi'i anfon, nid yw Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych wedi derbyn copi

PG 4.5	HA i gael diweddariad ar gynnydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yng Nghyngor Sir Ddinbych	AW i roi diweddariad i'r Fforwm
PG 4.6	HA i ddsbarthu dogfen ganllawiau'r adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	Wedi'i gwblhau
PG 4.7	HA a SW i gyfleu sylwadau aelodau'r Fforwm am gyfranogiad y Fforwm Mynediad Lleol a gweithio ar draws ffiniau drwy broses adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	Wedi'i gwblhau
PG 4.8	HA i ddsbarthu astudiaeth achos Milltiroedd Cymunedol ac adroddiad Montrayx	Wedi'i gwblhau
PG 4.9	Eitem ar gyfer rhaglen y cyfarfod nesaf: Gwirfoddoli. HA i drafod gyda PF ynglŷn â lleoliad a seinydd	Eitem wedi'i hychwanegu at y rhestr o eitemau gan aelodau i fod ar y rhaglen yn y dyfodol. Ni ychwanegwyd hi i gyfarfod mis Medi oherwydd ymgynghoriad LIC

Diweddariad ar Gynllun Amaeth-amgylcheddol Glastir

Nid oedd Jane Tibbott o Lywodraeth Cymru'n gallu dod i'r cyfarfod ac fe ymddiheurodd funud olaf. Gofynnwyd i Jane ddod i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad.

Cynllun Rhoi Giât

Rhoddodd Kevin Slattery (KS), aelod o'r Fforwm, gyflwyniad am gynllun Rhoi Giât a welodd ar ymweliad ag Ynys Wyth dros yr haf. Yn ei gyflwyniad, dywedodd bod y cynllun yn gosod giatiau gan fod camfeydd weithiau'n anodd i bobl sydd â phroblemau symudedd eu defnyddio a'u bod yn gallu ymestyn amser cerdded pan mae grwpiau mawr yn mynd ar daith. Mae'r cynllun yn trefnu i osod giatiau fel eitemau coffa i gofio pobl mewn ffyrdd eraill, ar wahân i fainc goffa. Mae gan Ardal y Llynnoedd a Rhostiroedd Gogledd Efrog bellach gynlluniau tebyg ar waith.

Mae'r cynllun wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac ar ddechrau cynllun Ynys Wyth, gwnaed llawer o waith hysbysebu, gan gynnwys gadael taflenni gydag ymgymerwyr angladdau. Bellach, nid oes angen hysbysebu gan fod rhestr aros i osod giât. Mae'r cynllun ar fynd ers 7 mlynedd ac mae ffigyrau'n dangos bod un rhan o dair o'r giatiau wedi'u prynu gan rai sy'n ymweld ag Ynys Wyth ac nad yw'r cyfraniadau hyn wastad er cof am rywun. Maent yn cael eu rhoi am sawl rheswm ac mae llawer o'r cyfraniadau'n dod gan grwpiau, fel y Ramblers yn rhoi'r 100^{fed} giât i gael ei gosod yn rhan o'r cynllun a chyfraniad teuluol i ddathlu pen-blwydd priodas arbennig. Ers dechrau'r cynllun 7 mlynedd yn ôl ym mis Mawrth 2010, mae 170 o gyfraniadau wedi'u gwneud ac mae rhestr aros o 15. Mae rhestr aros barhaol gan fod y broses yn cymryd amser.

Rhestrwyd da byw, dibynadwyedd y mecanwaith hunan-gau ac, hefyd, y posibilrwydd iddynt ddatblygu'n gysegrfeydd fel problemau posib'. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi bod yn broblem i 170 o'r giatiau a osodwyd – roedd un giât wedi'i fandaleiddio ac un plac wedi'i dynnu a'i daflu.

Mae'r costau gosod wedi'u cynnwys yn y gost o roi giât. Fodd bynnag, nid oedd KS yn siŵr a oedd cytundeb mewn grym i osod giât newydd pan oedd yr un bresennol wedi pydru neu'n cael ei fandaleiddio, ond mae rhestr gynhwysfawr o delerau ac amodau wedi'u hargraffu ar y daflen.

Mae Ramblers Ynys Wyth yn gweinyddu'r cynllun ac mae un gwirfoddolwr yn treulio tua deuddydd yr wythnos yn gwneud hyn. Mae'r adran hawliau tramwy'n goruchwyllo hyn i gynllunio i ble mae'r giatiau'n mynd. Gellir hawlio Cymorth Rhodd gan fod Cymdeithas y Ramblers yn elusen, sy'n creu incwm ar gyfer y Ramblers.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai awdurdodau lleol ystyried a fyddai modd cynnal cynlluniau tebyg yn yr ardal hon. Dywedodd SW ei bod yn ystyried hynny yng Nghonwy ac y bydd yn rhoi adborth i'r Fforwm yn y cyfarfod nesaf.

Manylion cyswllt Adran Hawliau Tramwy Ynys Wyth yw:

Rheolwr Hawliau Tramwy: Darrel Clarke – 01983 821000 est. 8776 darrel.clarke@iow.gov.uk

PG 5.1	CSDd a CBSC i roi adborth ar gynllun 'Rhoi Giât' posib'.	
--------	--	--

Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gofynnodd Victoria Currie (VC) a oedd y Fforwm wedi derbyn llythyr – VC i'w anfon eto gan nad oedd HA wedi'i dderbyn. Gwaith yn mynd rhagddo'n dda i asesu'r hen Gynllun Gwella Hawliau Tramwy. VC yn gobeithio anfon yr adroddiad asesu at y Fforwm yn gynnar yn 2018 i roi sylwadau arno.

Cyngor Sir Ddinbych

Dywedodd Adrian Walls (AW) wrth y Fforwm y bydd CSDd yn llunio dogfen o'r enw "Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad" i gwmpasu safleoedd fel coedwigoedd a chynnwys y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Mae amserlen ddrafft wedi'i llunio ond mae angen i CSDd gytuno ar restr o ymgynghoreion gyda'r Fforwm cyn cyhoeddi. Roedd copiâu o'r rhestr ar gael i aelodau i'w hychwanegu at y rhestr fwy o ymgynghoreion. Bydd yr amserlen yn cael ei phennu yn y 4 wythnos nesaf. Cyhoeddwyd y Cynllun diwethaf fis Medi 2008, felly mae gan CSDd tan fis Medi 2018 i adolygu.

Anfonwch unrhyw awgrymiadau sydd gennych am ymgynghoreion sydd ar goll o'r rhestr mewn e-bost at AW.

Cafwyd trafodaeth wedyn ynglŷn ag ymatebion i ymgynghoriadau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan awdurdodau lleol eraill. Dywedodd Peter Rutherford o Barc Cenedlaethol Eryri (PR) bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn 1,500 o ymatebion i'w holiadur ar-lein. Mae AW wedi bod yn edrych ar hyn a'r holl waith hybu a wnaed gan eu tîm cyfathrebu. Ychwanegodd bod Cyngor Powys, o gymharu, wedi derbyn 250 o ymatebion. Dywedodd PR ei fod wedi hybu ymgynghoriad Gwynedd drwy sianelau'r Parc Cenedlaethol hefyd, a oedd wedi helpu.

Cynghorodd PR hefyd y dylid cynnwys tir mynediad a mynediad at ddŵr a'r agenda iechyd yn y ddogfen newydd. Nododd AW bod arolwg Gwynedd yn cydblethu â rhannau o ymgynghoriad LLC, sy'n rhywbeth y bydd angen i CSDd ei ystyried. Ychwanegodd PF bod AW wedi gwneud pwyntiau pwysig iawn ac roedd yn teimlo y dylai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyfleu i Lywodraeth Cymru. Mae'n broses ddwyffordd ac wrth iddynt wneud newidiadau, waeth sut rai ydynt, fe ddylent ystyried Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Diweddariad ar Deithio Llesol

Rhoddodd SW ddiweddariad cryno gan Paul Smith am yr ymgynghoriad Teithio Llesol cyfredol yng Nghonwy.

Roedd manylion wedi'u dosbarthu ynglŷn â'r ymgynghoriadau a oedd ar fynd ar Deithio Llesol yng Nghonwy a Sir Ddinbych. HA i'w dosbarthu.

PG 5.2	HA i ailddosbarthu'r manylion am Deithio Llesol	
--------	---	--

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy

Trafodwyd yr ymgynghoriad gan yr aelodau a bydd Helen Mrowiec (HM) yn dosbarthu crynodeb o'r safbwyntiau o fewn wythnos i aelodau wneud sylwadau cyn bodloni'r dyddiad cau ar 30 Medi 2017.

PG 5.3	HM i ddarparu crynodeb o'r drafodaeth a'i ddsbarthu i'r aelodau o fewn wythnos i'r cyfarfod	
--------	---	--

Eitemau y gofynnwyd iddynt fod ar raglen y cyfarfod nesaf:

- Diweddariad gan y ddau Awdurdod Lleol ynglŷn â'u sefyllfa o ran y Cynllun Rhoi Giât.
- Gwirfoddoli
- Diweddariad ar Glastir

Dyddiad cyfarfodydd sydd i ddod:

- 8 Rhagfyr 2017
- 8 Mawrth 2018